

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol My Smile Centre,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 12 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	15
4.	Y camau nesaf .....	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol My Smile Centre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 12 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 7 holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Practis Deintyddol My Smile Centre yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Er y pwysau a oedd ar y gwasanaeth a'i anhawster i recriwtio staff ychwanegol, dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned leol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Annog adborth gan y cleifion ac adolygu'r adborth hwnnw yn rheolaidd
- Ceisio cyngor a chymorth er mwyn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg
- Sicrhau bod y staff yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a dymunol
- Darpariaeth dda i helpu cleifion ag anghenion symudedd ychwanegol i gael mynediad i'r practis ac i ddefnyddio'r gwasanaethau
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, roedd pob ardal roedd y cleifion yn ei gweld yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd gan y deintyddfeydd a'r ystafelloedd ddihalogi gyfarpar da ac roeddent o safon dda.

Roedd mesurau priodol ar waith i atal a rheoli heintiau.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaglen strwythuredig o archwiliadau clinigol
- Cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y tîm yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion
- Trefniadau diogel ar gyfer dihalogi offer deintyddol
- Rheolaeth dda o feddyginiaeth a chyfarpar brys.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol My Smile Centre ac roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod systemau ar waith i ddarparu hyfforddiant a sesiynau sefydlu i aelodau newydd o staff ac roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff gael sesiynau arfarnu rheolaidd
- Dull mwy strwythuredig o gynnal gweithgareddau gwella ansawdd
- System i fonitro gofynion hyfforddiant ym mhob rhan o'r practis
- Dylid dyddio ac adolygu'r polisiau, gweithdrefnau a'r asesiadau risg ar adegau priodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolaeth a llinellau atebolrwydd clir
- Aelod o gynllun arferion da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“ Roedd popeth yn ardderchog!”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd taflenni a phosteri amrywiol i'w gweld yn ardal y dderbynfa am iechyd y geg, gan gynnwys proses sgrinio iechyd y GIG, sut i frwsio dannedd, cynnwys siwgr mewn bwydydd a chlefyd y deintgig.

Roedd arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg. At hynny, roedd arwyddion yn cadarnhau nad oedd caniatâd i ddefnyddio e-sigarêts yn y practis.

Roedd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da yn y geg a bod iechyd eu ceg wedi cael ei esbonio iddynt mewn ffordd y gallant ei ddeall.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau a bod y rhannu o'r drysau a oedd yn wydr yn cael eu gorchuddio er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y ffenestri a'r drysau yn ardal y dderbynfa a oedd yn wynebu'r stryd yn cynnwys gwydr cudd hefyd. Roedd teledu ymlaen yn ardal y dderbynfa i ddarparu sŵn cefndirol ac i hyrwyddo preifatrwydd.

Dywedodd y staff wrthym y gellid defnyddio ystafell breifat neu un o'r deintyddfeydd pe byddai cleifion yn dymuno siarad yn gyfrinachol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.



Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nodwyd gennym nad oedd egwyddorion moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn y practis. Gwnaethom godi hyn â rheolwr y practis a chafodd copi ohonynt ei arddangos yn ystod yr arolygiad.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Cytunodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth a risgiau a manteision y rhain a'r costau.

Gwelsom fod polisi rheoli cofnodion priodol ar waith yn ogystal â system i reoli cofnodion y cleifion, ynghyd â pholisiau am gysyniad a hawliau'r cleifion heb alluedd.

Roedd costau gofal preifat a gofal y GIG yn cael eu harddangos yn glir.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Gwelsom fod oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir y tu allan i'r brif fynedfa, ynghyd â rhif ffôn y practis. Roedd arwydd i'w weld a oedd yn cynghori cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt i gysylltu â gwasanaeth 111 y GIG.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd apwyntiadau brys yn cael eu neilltuo yn ddyddiol ar hyn o bryd oherwydd y galw ond eu bod yn cael eu cynnwys ar gyfer y misoedd nesaf. Dywedwyd wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu ar gyfer cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt, gan gynnwys opsiwn i 'eistedd ac aros' a chael eu trin lle y bo'n bosibl.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i gleifion ar lafar am unrhyw oedi ac yn cynnig aildrefnu apwyntiadau pe bai angen.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac Iaith**

Roedd rhywfaint o ddeunyddiau yn ardal y dderbynfa yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Nid oedd tystiolaeth bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.

**Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i fod yn defnyddio cyngor a chymorth gan ei Fwrdd Iechyd Lleol.**

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd staff y dderbynfa yn sicr o'r ffordd i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu er mwyn helpu cleifion nad Saesneg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, cafodd rheolwr y practis wybodaeth gan y Bwrdd Iechyd am y ffordd i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu ac argraffwyd y wybodaeth hon a'i rhoi i staff y dderbynfa yn ystod yr arolygiad.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith a'i fod yn cynnwys disgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb), mathau o aflonyddu a'r hyn i'w wneud pe bai achos o wahaniaethu'n codi.

Roedd yn amlwg bod y practis wedi gwneud addasiadau er mwyn sicrhau bod y practis yn hygyrch i gleifion ag anghenion symudedd ychwanegol. Roedd ramp ar gael i ddefnyddwyr cadair olwyn a oedd yn arwain at y drws ffrynt, yn ogystal ag adran is ger desg y dderbynfa a thoiled hygyrch. Roedd dau o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod, gyda mynediad gwastad. Roedd dolen sain ar gael yn ardal y dderbynfa.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân, mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd nifer priodol o gadeiriau ar gael yn yr ardaloedd aros yr oedd modd eu sychu ac roeddent mewn cyflwr da. Nodwyd gennym fod gorchuddion wedi cael eu gosod yn y socedi trydanol lefel isel yn yr ardaloedd aros er mwyn lleihau'r risg i blant bach.

Roedd y toiled i gleifion yn lân yr olwg ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ac uned gwaredu eitemau ar gyfer mislif.

Roedd gan y practis llawlyfrau lechyd a Diogelwch ar gyfer y staff a'r contractwyr. Gwelsom asesiad risg cyffredinol ar gyfer y practis a oedd yn cynnwys rhestr o'r mesurau rheoli a'r peryglon.

Gwelsom fod gan y practis asesiad risg tân ar waith a oedd wedi cael ei lofnodi gan y staff. Gwelsom hefyd fod cynllun gweithredu tân ar waith, yn ogystal ag arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân a pholisi rhagofalon tân. Roedd cofnodion i ddangos bod larymau tân a diffoddwyr tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd a thystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod gan y practis polisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb cyfredol ar waith.

Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolwydd Cyflogwyr yn cael ei harddangos a gwelwyd poster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn yr ardal i staff yn yr islawr.

Roedd ardaloedd newid a loceri addas yn cael eu darparu i'r staff.

### Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol.

Roedd clustog y gadair yn Neintyddfa 2 wedi'i ddifrodi a byddai hynny'n effeithio ar y broses o'i lanhau'n effeithiol ac roedd angen ei adnewyddu.

**Rydym yn argymhell y dylid adnewyddu neu osod clustog newydd ar y gadair yn Neintyddfa 2.**

Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith, a oedd yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau, amserlen lanhau effeithiol ac arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig.

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd y cyfleuster wedi'i leoli mewn dwy ystafell a oedd yn galluogi bod yr ardaloedd glân a'r ardaloedd budr yn cael eu cadw ar wahân ac roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar diheintio yn rheolaidd.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd eu cynnal yn unol â WTHM 01-05. Dylid cwblhau'r archwiliadau bob blwyddyn o leiaf gan eu llofnodi a'u dyddio.**

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael brechlyn yn erbyn haint Hepatitis B. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn cynnwys tystiolaeth i gadarnhau bod y brechlyn wedi ysgogi'r ymateb imiwnedd disgwylidig.

**Rydym yn argymhell y dylid profi'r staff clinigol er mwyn cadarnhau bod eu brechlyn Hepatitis B wedi sicrhau ymateb imiwnedd addas ac y dylid gwneud cofnod ohono yn ffeiliau'r staff.**

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Nodwyd gennym fod polisiau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a bod y meddyginiaethau hynny yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd cyfarpar a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng meddygol ar gael yn hawdd yn y practis. Nodwyd gennym fod potel ocsigen newydd wedi cael ei gosod ond roedd yr hen botel yn cael ei storio gyda'r cyfarpar brys o hyd.

**Rydym yn argymhell y dylid cael gwared ar y botel ocsigen nad oes ei hangen mwyach neu ei symud er mwyn osgoi iddi gael ei defnyddio mewn camgymeriad mewn argyfwng.**

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu. Roedd y rhain yn cynnwys siart lif y GIG a manylion cyswllt yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oeddent yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu diweddarau fel eu bod yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a bod y staff yn cael gwybod sut i gael gafael arnynt.**

Mae gan y practis arweinydd diogelu dynodedig ac o edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff, gwelsom lefelau da o hyfforddiant a'u bod wedi ymgymryd â hyfforddiant hyd at Lefel 3. Nodwyd hyn fel arfer gorau o ran yr arweinydd diogelu.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Nodwyd gennym fod cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei lanhau a'i ddiheintio'n briodol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â'r defnydd o gyfarpar pelydr-X. Gwelsom fod gweithdrefnau priodol, manylion Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, Lefelau Cyfeirio Diagnostig a ddefnyddir ac asesiad risg ymbelydredd ar waith.

Fodd bynnag, nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd yn unol â'r amserlenni a argymhellwyd. At hynny, nid oedd y prif ddeintydd yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ymgymryd â hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu rhag ymbelydredd ac er mwyn defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

**Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r broses o gynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X a hyfforddiant ar y cyfarpar mewn hysbysiad diffyg cydymffurfio. Mae hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y practis ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir manylion am yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gennym yn Atodiad B.**

Gwelsom lythyr a oedd yn cadarnhau bod y practis wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i ddefnyddio cyfarpar pelydr-X, ond nodwyd gennym fod y cofrestriad hwn yn cyfeirio at safle blaenorol y practis. Gan fod y broses o newid cyfeiriad yn un materol, gwnaethom argymhell y dylid rhoi gwybod i HSE am hyn.

## **Effeithiol**

## **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs), er mwyn helpu i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu gofal diogel i'w gleifion.

## **Cofnodion y Cleifion**

Roedd systemau priodol ar waith yn y practis ar gyfer cofnodi a storio cofnodion cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion cleifion. Gwelsom fod y broses o gofnodi gwybodaeth yn dda ar y cyfan ac yn cynnwys asesiadau risg, prosesau sgrinio ar gyfer canser, cyfiawnhad radiograffeg a graddio. Fodd bynnag, nid oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.

Rydym yn argymhell y dylid nodi dewis iaith cleifion yng nghofnod y cleifion.

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwelsom fod yr adeilad a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael eu blaenoriaethu lle bo modd. Gwelsom y prif ddeintydd yn defnyddio dau ddeintyddfa am yn ail er mwyn lleihau'r amseroedd aros rhwng cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, dan gyfarwyddyd y prif ddeintydd a'r rheolwr cofrestredig hefyd, a rheolwr y practis.

Gwelsom dystiolaeth bod un aelod o'r staff wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, ond ni ellid darparu tystiolaeth ar gyfer aelodau eraill o'r staff.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau rheolaidd.**

Roedd amrywiaeth o bolisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith yn y practis. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i sicrhau bod y dogfennau'n cael eu dyddio, eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i wneud yn siwr y caiff polisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom nad oedd unrhyw system glir ar waith ar gyfer asesu a monitro gofynion hyfforddiant y staff. Roedd y staff yn defnyddio system electronig ar gyfer rhai cyrsiau hyfforddiant, ond nid oedd y tîm rheoli yn gallu cael mynediad at y system hon i nodi a oedd angen i'r staff ymgymryd â hyfforddiant, a oedd angen diweddarau'r hyfforddiant neu a oeddent wedi ei gwblhau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff yn ystod yr arolygiad. Nid oedd yn bosibl cyflwyno cofnodion ar gyfer un o'r nyrsys deintyddol ar ddiwrnod yr arolygiad gan nad oedd yr aelod hwnnw o staff ar y safle ac am nad oedd gan rheolwr y practis gopiâu o'r tystysgrifau hyfforddiant yn y ffeil. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd, atal a rheoli heintiau a diogelwch tân. Gwnaethom gytuno y gellid cyflwyno'r dogfennau ar ôl yr arolygiad. Fodd bynnag, roeddent wedi cael eu dyddio i nodi bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad. Felly, ni allwn fod yn sicr bod yr hyfforddiant wedi cael ei gwblhau'n amserol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i asesu anghenion hyfforddiant y staff ac i gofnodi cynnydd er mwyn gwneud yn siŵr bod yr hyfforddiant gofynnol yn cael ei gwblhau ar yr amser gofynnol.

Rydym yn argymhell y dylai rheolwr y practis sicrhau bod ganddo gopiâu, neu fynediad at gopiâu, o'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.

Gwelsom fod gwybodaeth am y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gael yn y practis ond nid oedd ganddo bolisi ar waith. Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis lunio polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Dywedwyd wrthym fod holiaduron boddhad cleifion ar ffurf papur yn cael eu defnyddio gan y practis, ond roeddent ond yn cael eu dosbarthu bob hyn a hyn yn hytrach na'u bod ar gael bob amser. Nid oedd gan y practis wefan na phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn i'r cleifion roi adborth, ond dywedwyd wrthym fod rhai cleifion yn dewis anfon adborth dros e-bost.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod system strwythuredig ar waith i annog a chasglu adborth gan gleifion, i adolygu'r adborth hwn a'i rannu ag aelodau o'r staff nac i weithredu ar unrhyw faterion a godir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn galluogi'r cleifion i gyflwyno adborth a bod yr adborth hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac y gweithredir arno fel sy'n briodol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno glir ar waith, a oedd yn cynnwys manylion y ffynonellau cymorth a'r ffordd i uwchgyfeirio cwynion at gyrff allanol. Gwelsom boster 'Gweithio i Wella' y GIG yn ardal y dderbynfa.

Gwelsom dystiolaeth bod cwynion a gohebiaeth gan y cleifion yn cael eu cadw ar ffeil. Dywedwyd wrthym fod cwynion yn cael eu hadolygu'n unigol wrth iddynt gael eu cyflwyno, yn hytrach nag yn rheolaidd.

Rydym yn argymhell y dylid adolygu cwynion gan gleifion yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin neu faterion rheolaidd.



## Gwybodaeth

### Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd system electronig yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodion y cleifion a gellid trefnu apwyntiadau dros e-bost. Roedd y staff yn defnyddio system electronig i ymgymryd â modiwlau hyfforddiant ar-lein.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom mai prin oedd y dystiolaeth a oedd ar gael i ddangos y prosesau sydd ar waith i wella ansawdd y gwasanaethau.

Er bod rhai archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal, nid oedd unrhyw raglen strwythuredig ar waith. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau ar roi'r gorau i smygu na rhagnodi gwrthfotig ar waith, nac ar y defnydd o adnoddau Gwella Ansawdd a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu a rhoi adnoddau Gwella Ansawdd priodol ar waith, fel y'u darperir gan AaGIC.

## Dull Systemau Cyfan

### Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedodd y staff wrthym fod y broses o gyfathrebu â darparwyr gofal iechyd a chyrrff eraill y GIG, megis wrth wneud atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth bellach, yn cael ei chwblhau dros y ffôn.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd egwyddorion moesegol ymarfer craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn y practis.	Mae'r egwyddorion yn nodi'r safonau y dylai cleifion eu disgwyl gan weithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Mae arddangos y safonau yn ofyniad rheoliadol.	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Argraffwyd copi o egwyddorion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chafodd ei arddangos yn ystod yr arolygiad.
Nid oedd staff y dderbynfa yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu.	Gallai hyn effeithio ar allu'r staff i helpu'r cleifion nad oeddent yn gallu siarad Saesneg.	Codwyd hyn gyda rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad.	Cafodd rheolwr y practis wybodaeth gan y Bwrdd Iechyd Lleol am sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu. Cafodd y wybodaeth hon ei hargraffu a'i rhannu â staff y dderbynfa yn ystod yr arolygiad.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: My Smile Centre

Dyddiad yr arolygiad: 12 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod y prif ddeintydd wedi ymgymryd â hyfforddiant digonol ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y prif ddeintydd yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ac yn darparu tystiolaeth i AGIC ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(b)	Cwblhau cwrs IRMER ar-lein (Rhannau 1 i 5)	Prif Ddeintydd	Cwblhawyd (18.9.23)
Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau cynnal a chadw priodol	Rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud trefniadau i wasanaethu a chynnal gwiriadau cynnal a	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(2)(a)	Ymweliad gan beiriannydd wedi'i drefnu	Rheolwr y Practis	21.9.23 <i>(Noder: bydd tystiolaeth yn cael ei darparu'n</i>

wedi cael eu cynnal ar y  
cyfarpar pelydr-X.

chadw priodol ar y cyfarpar  
pelydr-X.

*fuan i  
gadarnhau'r  
ymweliad)*

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Mr Olusegun Adegbesan

**Teitl swydd:** Rheolwr y Practis

**Dyddiad:** 18 Medi 2023

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: My Smile Centre

Dyddiad yr arolygiad: 12 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i fod yn defnyddio cyngor a chymorth gan ei Fwrdd Iechyd Lleol.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011  Safon: Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Rydym wedi anfon neges e-bost at y Tîm Gwasanaethau Cymraeg i archebu pecyn adnoddau ar gyfer gwasanaethau, megis poster i'w harddangos, laniardau, bathodynau, testun ar gyfer arwyddion dwyieithog a hysbysiadau	Rheolwr y Practis	Rydym yn aros am ymateb gan y Tîm Gwasanaethau Cymraeg
Roedd clustog y gadair yn Neintyddfa 2 wedi cael ei ddifrodi, a byddai hyn yn	Rydym yn argymhell y dylid adnewyddu neu osod	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat	Rydym yn chwilio am unigolyn i adnewyddu	Rheolwr y Practis	Cyn gynted â phosibl

<p>effeithio ar y broses o'i lanhau'n effeithiol.</p>	<p>clustog newydd ar y gadair yn Neintyddfa 2.</p>	<p>(Cymru) 2017, Rheoliad 13(2)(a)</p>	<p>a/neu osod clustog newydd ar y gadair.</p>		
<p>Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd eu cynnal yn unol â WHTM 01-05. Dylid cwblhau'r archwiliadau bob blwyddyn o leiaf gan eu llofnodi a'u dyddio.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliadau 13(6) a 13(7)</p>	<p>Roeddem wedi cydymffurfio â WHTM 01-05 ymhell cyn yr arolygiad.</p> <p>Fodd bynnag, rydym yn parhau i gynnal yr archwiliadau</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod wedi cael brechlyn Hepatitis B ond nid oedd unrhyw gofnod i ddangos bod ymateb imiwnedd addas wedi'i gofnodi.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid profi'r staff clinigol er mwyn cadarnhau bod eu brechlyn Hepatitis B wedi sicrhau ymateb imiwnedd addas ac y dylid gwneud cofnod ohono yn ffeiliau'r staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(5)</p>	<p>Mae hyn wedi cael ei nodi.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff yr effeithiwyd arno wedi cael ei orfodi i gael prawf. Nid yw Meddygon Teulu yn cynnig y gwasanaeth hwn mwyach. Rydym yn trefnu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Aros am gadarnhad gan y Bwrdd Iechyd Lleol</p>

			ddefnyddio gwasanaethau lechyd Galwedigaethol		
Roedd hen botel ocsigen yn cael ei storio gyda'r cyfarpar meddygol brys a oedd yn cynyddu'r risg o ddefnyddio'r cyfarpar anghywir.	Rydym yn argymhell y dylid cael gwared ar y botel ocsigen nad oes ei hangen mwyach neu ei symud er mwyn osgoi iddi gael ei defnyddio mewn camgymeriad mewn argyfwng.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(2)(a)	Wedi nodi a'i roi ar waith	Rheolwr y Practis	Eisoes wedi'i symud
Nid oedd gweithdrefnau diogelu'r practis yn cyfeirio at weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu diweddarau fel eu bod yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a bod y staff yn cael gwybod sut i gael gafael arnynt.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 14(1)(a)	Bydd hwn yn cael ei ychwanegu a'i ddiweddarau	Rheolwr y Practis	Erbyn diwedd y flwyddyn



<p>Nid oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi fel rhan o gofnodion y cleifion</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid nodi dewis iaith cleifion yng nghofnod y cleifion.</p>	<p>Safonau'r Gymraeg</p>	<p>Wedi nodi a'i roi ar waith</p>	<p>Rheolwr y Practis a chlinigydd</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau yn rheolaidd.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau rheolaidd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(4)</p>	<p>Gwnaethom gyflwyno tystiolaeth o'r arfarniadau yn ystod yr arolygiad, ond gofynnwyd i ni eu cynnal yn fwy rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Wedi nodi a'i roi ar waith</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
<p>Nid oedd system effeithiol ar waith i sicrhau bod polisiâu, weithdrefnau ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i wneud yn siwr y caiff polisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(6)</p>	<p>Gwnaethom gofrestru â Peninsula ac rydym yn adolygu'r gweithdrefnau a'r asesiadau risg â nhw yn rheolaidd. Rydym yn gallu cael gafael ar borth i ymgymryd â'r gwaith adolygu a monitro. Roeddem wedi mewngofnodi i'r</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Mae hyn wedi bod ar waith ers y dechrau.</p>

			porth er mwyn dangos yr asesiadau risg i'r arolygwyr. At hynny, caiff ein polisiau a gedwir mewn ffeil eu hadolygu'n rheolaidd		
Nid oedd unrhyw system effeithiol ar waith i asesu a monitro hyfforddiant y staff ar lefel y practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system yn cael ei rhoi ar waith i asesu anghenion hyfforddiant y staff ac i gofnodi cynnydd er mwyn gwneud yn siwr bod yr hyfforddiant gofynnol yn cael ei gwblhau ar yr amser gofynnol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(3)	Mae llyfr hyfforddiant y staff ar waith yn y practis ac mae pob aelod o'r staff yn tanysgrifio i Agilo. Gellir monitro hyfforddiant y staff gan ddefnyddio Agilo a gellir neilltuo cyrsiau a chyfeirio'r staff i fewngofnodi	Rheolwr y Practis	Eisoes wedi'i roi ar waith
Nid oedd gan reolwr y practis gopïau, neu fynediad at gopïau, o'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.	Rydym yn argymhell y dylai rheolwr y practis sicrhau bod ganddo gopïau, neu fynediad at gopïau, o'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(3)	Mae hyn wedi cael ei nodi. Fodd bynnag, nid oes gennym fynediad at y cofnodion hyfforddiant gorfodol ar Agilo na'r cofnodion	Rheolwr y Practis	Mae adolygiad pellach yn mynd rhagddo

			a wnaed â llaw ar y safle, megis y cofnodlyfr CPR.		
Nid oedd gan y practis bolisi mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis lunio polisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd a sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17(3)	Mae gennym bolisi a ffeil ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd bellach yn cyd-fynd â phrosesau Gweithio i Wella. Fodd bynnag, gwneir ymdrechion i drefnu hyfforddiant.	Rheolwr y Practis	Cyn diwedd y flwyddyn
Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod system gadarn ar waith i annog a chasglu adborth gan gleifion, i adolygu'r adborth hwn a'i rannu ag aelodau o'r staff nac i weithredu ar unrhyw faterion a godir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn galluogi'r cleifion i gyflwyno adborth a bod yr adborth hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac y gweithredir arno fel sy'n briodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)(c)	Rydym yn rhoi ffurflenni i'r cleifion er mwyn iddynt roi adborth a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth a'i ddull o gyfathrebu â chleifion. Roedd yn	Rheolwr y Practis	Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal yn barhaus

			bosibl edrych ar y ffolder		
Roedd cwynion gan gleifion yn cael eu hystyried ar wahân, ond nid oedd system ar waith i gynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn nodi themâu cyffredin neu faterion rheolaidd.	Rydym yn argymhell y dylid adolygu cwynion gan gleifion yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin neu faterion rheolaidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)	Nid ydym yn derbyn nifer fawr o gwynion. Caiff adolygiadau a data eu darparu yn ystod cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd a Diogelwch o bryd i'w gilydd. Bydd hyn hefyd yn cael ei gwblhau pan fo angen	Rheolwr y Practis	Ymarfer parhaus
Nid oedd unrhyw raglen strwythuredig ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1)	Caiff yr archwiliad clinigol ei gynnal o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae adolygiad yn mynd rhagddo er mwyn nodi meysydd i'w gwella	Rheolwr y Practis	Parhaus ac i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn
Nid oedd yr adnoddau Gwella Ansawdd a ddarparwyd gan AaGIC yn cael eu defnyddio.	Rydym yn argymhell y dylai'r practis adolygu a rhoi adnoddau Gwella Ansawdd priodol ar waith, fel y'u darparwyd gan AaGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1)	Rydym yn aelod o gynllun Arferion Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Rydym yn cynnal	Rheolwr y Practis	Yn y flwyddyn newydd

cyfarfodydd Sicrhau  
Ansawdd a Diogelwch  
yn flynyddol. Rydym  
eisoes wedi  
cydymffurfio â WHTM  
01-05. Byddwn yn  
ceisio cofrestru ar  
gyfer Matrics  
Aeddfedrwydd ar gyfer  
Deintyddiaeth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Mr Adegbesan

**Teitl swydd:** Rheolwr y Practis

**Dyddiad:** 29 Tachwedd 2023